**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

19 Ionawr 2026

Annwyl Peredur

Yn ystod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, ymrwymais i roi rhagor o fanylion ichi am waith Cyllidebu ar sail Rhywedd Llywodraeth Cymru a chanfyddiadau'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd rhwng 2019 a 2024. Yn ogystal, ymrwymais i amlinellu sut y bydd yr hyn a ddysgwyd yn llywio ymarfer yn y dyfodol.

**Beth yw Cyllidebu ar Sail Rhywedd?**

Mae cyllidebu ar sail rhywedd yn ddull rheoli cyllid cyhoeddus sy'n ymgorffori persbectif rhywedd yn y prosesau cyllidebol. Mae'n cynnwys asesu sut mae penderfyniadau gwariant yn effeithio yn wahanol ar fenywod a dynion, gan geisio hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n deg ac yn effeithiol.

Yn ymarferol, mae cyllidebu ar sail rhywedd yn golygu cymhwyso dadansoddiad ar sail rhywedd yn ystod camau allweddol o ddatblygu polisi a chynllunio cyllideb. Mae hyn yn cynnwys casglu a defnyddio data a ddadgyfunwyd ar sail rhywedd, nodi anghydraddoldebau posibl o ran mynediad neu ganlyniadau, ac addasu rhaglenni neu ddyraniadau cyllid i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Trwy ymgorffori'r ystyriaethau hyn yn gynnar yn y broses, gall llywodraethau wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n hyrwyddo canlyniadau cynhwysol a theg.

Cynlluniwyd y cynlluniau peilot i brofi gwahanol ffyrdd o integreiddio dadansoddiad ar sail rhywedd i'r gwaith datblygu polisi o ddydd i ddydd a phenderfyniadau gwariant ar draws y tri maes canlynol: Teithio Llesol, y Warant i Bobl Ifanc a Chyfrifon Dysgu Personol. Gyda'i gilydd, maent wedi rhoi gwybodaeth werthfawr ac ymarferol inni am sut y gall cyllidebu ar sail rhywedd helpu i wella canlyniadau a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn deg ac yn effeithiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Canfyddiadau allweddol o'r Cynlluniau peilot**
Ar draws y tri chynllun peilot, daeth sawl thema gyson i'r amlwg:

- **Mae ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd yn gynnar yn hanfodol.** Pan gyflwynwyd cyllidebu ar sail rhywedd yng nghanol cyflawni rhaglen, roedd ei effaith a'r gefnogaeth iddo yn gyfyngedig. Mae'r gwerthusiad yn dangos yn glir bod y dull gweithredu yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ymgorffori o'r cychwyn cyntaf.

- **Mae gwell data yn hanfodol.** Er bod pob cynllun peilot wedi cryfhau ei broses casglu data, mae data croestoriadol a data a ddadgyfunwyd ar sail rhywedd yn parhau i fod yn anghyson. Bydd tystiolaeth gadarn yn hanfodol i alluogi penderfyniadau mwy gwybodus yn y dyfodol.

- **Mae angen cryfhau gallu, dealltwriaeth a hyder.** Cafodd y dull ei groesawu gan bartneriaid cyflawni, colegau a thimau rhaglenni, ond tynnwyd sylw at yr angen am ganllawiau cliriach, enghreifftiau ymarferol a chymorth parhaus i ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd yn ystyrlon.

- **Gall cyllidebu ar sail rhywedd newid canlyniadau.**
  - Yn y cynllun peilot teithio llesol E-symud, arweiniodd addasu dulliau hyrwyddo, dulliau ymgysylltu ac opsiynau o ran beiciau mewn ymateb i rwystrau a nodwyd at fenywod yn cynrychioli 48% o ddefnyddwyr. Mae hyn yn welliant sylweddol o ystyried bod dynion, fel arfer, dair gwaith yn fwy tebygol o feicio na menywod.

  - O ran Cyfrifon Dysgu Personol, mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod mwy o fenywod yn astudio pynciau nad ydynt yn rhai traddodiadol, er enghraifft, gweler bod mwy o fenywod yn hyfforddi ym maes adeiladu a TGCh.

  - O ran y Warant i Bobl Ifanc, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb cryfach a gwaith wedi'i dargedu (gan gynnwys gwaith gyda'r boblogaeth o garcharorion benywaidd) wedi cynhyrchu tystiolaeth newydd i lywio'r cynllun yn y dyfodol.

- **Mae newid diwylliannol a sefydliadol yn cymryd amser.** Mae ymgorffori dadansoddiad ar sail rhywedd mewn prosesau safonol – yn hytrach na'i weld fel 'ychwanegiad' – yn gofyn am arweinyddiaeth, hyfforddiant ac atgyfnerthu parhaus dros gylchoedd cyllidebol lluosog.

Mae'r gwerthusiad cyhoeddedig i'w weld yma [Cyllidebu ar sail Rhywedd ar Waith: Dysgu o Gynlluniau Peilot yng Nghymru 2019–2024 | LLYW.CYMRU]

**Y Camau Nesaf**
Mae'r gwerthusiad yn dangos y gall cyllidebu ar sail rhywedd gyfrannu'n ystyrlon at wariant cyhoeddus tecach a mwy effeithiol. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhaid i hyn fod yn ymdrech hirdymor a strategol.

Y cam nesaf o ddatblygu ein dull fydd canolbwyntio ar atgyfnerthu'r dysgu, cryfhau gallu ar draws y llywodraeth a sicrhau bod egwyddorion cyllidebu ar sail rhywedd yn parhau i lywio'r broses o ddatblygu polisi a phrosesau cyllideb. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag eraill yn y sector cyhoeddus i rannu arferion gorau a thynnu sylw at adnoddau ymarferol. Rydym yn cynnal trafodaethau â phartneriaid fel Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi gwahodd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod i

gyfrannu at y camau datblygu nesaf. Yn benodol, hoffwn dynnu sylw at y cyfraniad a wnaed gan Grŵp Cyllideb Menywod Cymru, y mae ei her a'i arbenigedd wedi bod yn hynod werthfawr wrth helpu i brif ffrydio Cyllidebu ar sail Rhywedd yn Llywodraeth Cymru.

Er bod y gwaith hwn eisoes wedi cyfrannu gwybodaeth bwysig a newidiadau cadarnhaol, mae'n amlwg y bydd angen parhad ac ymrwymiad parhaus yn ystod cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol er mwyn gwireddu manteision cyllidebu ar sail rhywedd yn llawn. Wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y llywodraeth hon, rwy'n gobeithio y bydd y llywodraeth nesaf yn dymuno parhau i adeiladu ar y cynnydd hwn ac archwilio ymhellach botensial cyllidebu ar sail rhywedd fel adnodd ar gyfer gwella canlyniadau a sicrhau tegwch o ran gwariant cyhoeddus.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language